

Eluned Morgan AC

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Llywodraeth Cymru

2 Ebrill 2019

Annwyl Eluned,

## **Effaith Brexit ar y celfyddydau, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r Gymraeg**

Diolch am gytuno i ateb cwestiynau a gododd yn ystod sesiwn y Cyfarfod Llawn yn y Cynulliad ar 13 Mawrth 2019 ar ôl fy natganiad ar effaith Brexit ar y celfyddydau, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r Gymraeg.

Rwy'n gwybod eich bod yn rhannu fy mhryderon y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cael effaith hynod andwyol ar ein diwydiannau creadigol, ein heconomi wledig a'n gallu i hyrwyddo Cymru ledled y byd.

Rhoddodd fy natganiad sylw i'r materion a godwyd yn [adroddiad](#) yr ymchwiliad i'r mater hwn a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018.

Rwy'n ddiolchgar am yr [ymateb](#) manwl i argymhellion y Pwyllgor a roddwyd gennych ym mis Ionawr 2019. Rhoddwyd sylw yn eich ymateb i rai o'r materion a godwyd yn ystod sesiwn y Cyfarfod Llawn, megis yr angen i barhau i fod yn aelod o Horizon 2020, Erasmus+ ac Ewrop Greadigol. Fodd bynnag, mae rhai pwyntiau eraill y byddai'n ddefnyddiol eu hegluro.

### **Y Gymraeg**

Mae adroddiad ein hymchwiliad yn manylu ar y pryderon sydd gennym am y risg i'r Gymraeg os yw'r economi wledig yn dioddef, yn enwedig o newid yn lefel y cymorth cyllid drwy fframwaith y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Codwyd y pryderon hyn gan David Melding AC a Suzy Davies AC ar ôl fy natganiad. Soniodd David am y risg i economïau gwledig sy'n cynnwys nifer o siaradwyr Cymraeg o dariffau amaethyddol a'r angen i liniaru'r costau yn y tymor byr, a nododd Suzy na roddwyd sylw dyledus i'r Gymraeg yng nghynigion polisi'r Llywodraeth ar gyfer cymorth amaethyddol yn 'Brexit a'n tir'.

Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom gan Meirion Prys Jones, cyn Brif Weithredwr y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd, a alwodd i'r gwaith o gynnal y Gymraeg gael ei enwi fel un o egwyddorion y Llywodraeth yn y maes polisi hwn.

Mewn ymateb i'n hargymhelliad ar asesu risgiau Brexit i gymunedau lle mae nifer o bobl yn siarad Cymraeg, dywedasoch y canlynol:

rydym wedi ymrwymo drwy'r newidiadau a gynhigiwyd yn yr ymgynghoriad diweddar 'Brexit: Ein Tir' i gadw ffermwyr ar y tir, ac i weithio gyda ffermwyr i greu dyfodol gwell, mwy llewyrchus i'r sector.

Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi trafod yr angen i dynnu sylw at y risg i'r Gymraeg o ganlyniad i'r bygythiad i'n sector amaethyddol o Brexit. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi bod cynnal y Gymraeg yn egwyddor allweddol sy'n sail i'w chymorth ar gyfer cyflwyno'r cynllun nwyddau cyhoeddus.

A fydd y gwaith o gynnal y Gymraeg yn cael ei enwi fel un o'r egwyddorion 'allweddol a fydd yn llywio'r cymorth yn y dyfodol' fel y nodwyd ym Mhennod 4 o ['Brexit a'n tir'](#)?

### **Asesiadau effaith iaith Gymraeg**

Yn eich ymateb i'n hadroddiad, dywedwch y canlynol:

Rydym eisoes wedi ymrwymo i gynnal Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ar ein cynigion terfynol yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad [sef 'Brexit a'n tir']. Byddwn yn gwneud asesiadau pellach yn ôl yr angen yng nghyd-destun newidiadau polisi eraill y bydd eu hangen o ganlyniad i Brexit.

Fodd bynnag, gofynnodd Suzy Davies AC a oedd asesiadau effaith iaith Gymraeg yn rhan annatod o broses Llywodraeth Cymru o baratoi at Brexit, yn benodol, at senario Brexit 'dim cytundeb'. Mae ganddi bryder nad yw'r mater hwn wedi'i ateb yn uniongyrchol yn y dystiolaeth a roddwyd i bwyllgorau eraill y Cynulliad.

A wnewch roi tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith iaith Gymraeg ar eich polisiau Brexit a'ch paratodau senario 'dim cytundeb'?

Yn olaf, nodaf o'ch ymateb i'n hadroddiad eich bod wedi bod yn gohebu â Chomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag effaith bosibl Brexit ar y Gymraeg.

A wnewch roi crynodeb i'r Pwyllgor o'ch trafodaethau â Chomisiynydd y Gymraeg a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt?

## leithoedd modern

Yn ystod y ddadl ar ôl fy natganiad, gwnaeth Delyth Jewell AC a Rhianon Passmore AC sylwadau ar bwysigrwydd astudio ieithoedd modern a'u pryderon ynghylch y gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis gwneud hynny. Codwyd hyn hefyd yn ein hymchwiliad. Awgrymwyd y bydd ysgolion yng Nghymru yn cael trafferth recriwtio athrawon ieithoedd modern o ganlyniad i Brexit. Hefyd, os nad yw'r DU yn rhan o gynllun Erasmus+, bydd yn golygu bod myfyrwyr yn cael eu hamddifadu o brofiad dysgu diwylliannol gwerthfawr yn Ewrop.

Rwy'n gwybod, ar yr un diwrnod ag y gwneuthum fy natganiad, yr holwyd Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, am arolwg y BBC a ganfu y bu mwy o ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dysgu ieithoedd tramor yng Nghymru nag unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Ymatebodd fod dros £2.5 miliwn wedi'i fuddsoddi ar y cynllun Dyfodol Byd-eang, i alluogi dysgwyr i ddeall pwysigrwydd ieithoedd ac y bydd dysgwyr yn cael profiad o ieithoedd yn iau dan gwricwlwm newydd Cymru.

Nododd y Pwyllgor eich ymateb i argymhelliad ein hadroddiad ar y mater hwn:

Mae'r dull o fewn y cwricwlwm newydd yn anelu at fynd i'r afael â'r gostyngiad hwn. Fodd bynnag mae hefyd yn bwysig felly ein bod yn asesu yr effaith y gall Brexit ei gael ar y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â dysgu ieithoedd mewn ysgolion a phrifysgolion yng Nghymru.

A wnewch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i asesu effaith Brexit ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â dysgu ieithoedd mewn ysgolion a phrifysgolion yng Nghymru?

Gwneuthum ymrwymiad i Suzy Davies AC i fynd ar drywydd ei hymholiad am ymgyrch y Ceidwadwyr Cymreig dros Gymru dairieithog a lansiwyd pan oedd yn llefarydd yr wrthblaid ar addysg. Dywedodd fod y Gweinidog Addysg ar y pryd wedi nodi'r egwyddor gyffredinol honno, ac y daeth yn rhan o bolisi'r Llywodraeth, felly hoffai gael rhywfaint o sicrwydd gan y Gweinidog, efallai, fod hynny'n wir o hyd, o ran polisi'r Llywodraeth.

A wnewch gadarnhau bod polisi Cymru fel cenedl dairieithog yn parhau i gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru?

---

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**

Culture, Welsh Language and Communications Committee

---

A wnewch ymateb i'r cwestiynau y mae'r llythyr hwn yn tynnu sylw atynt erbyn **26 Ebrill** fel y gallwn hysbysu ein rhanddeiliaid?

Yn gywir,

*Bethan Sayed.*

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**



Ein cyf MA-P/EM/1545/19

Bethan Sayed AC  
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

29 Ebrill 2019

Annwyl Bethan.

### **Effaith Brexit ar y celfyddydau, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r Gymraeg**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 2 Ebrill, yn dilyn eich datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mawrth ar adroddiad y Pwyllgor ar effaith Brexit ar y celfyddydau, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r Gymraeg.

Rydych wedi codi nifer o gwestiynau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac ieithoedd modern. Atebaf nhw yn eu tro. Lle bo'n berthnasol, mae'r ymatebion yn cynrychioli safbwyntiau Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau mewn perthynas â'r materion sy'n perthyn i'w portffolios.

### **Y Gymraeg**

**Cwestiwn 1:** *A fydd y gwaith o gynnal y Gymraeg yn cael ei enwi fel un o'r egwyddorion 'allweddol a fydd yn llywio'r cymorth yn y dyfodol' fel y nodwyd ym Mhennod 4 o 'Brexit a'n tir'?*

**Ymateb:** Ym mis Mai, bydd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn gwneud datganiad ffurfiol ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar Brexit a'n tir, a fydd yn rhoi mwy o fanylion am gymorth yn y dyfodol.

**Cwestiwn 2:** *A wnewch roi tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith iaith Gymraeg ar eich polisiau Brexit a'ch paratodau senario 'dim cytundeb'?*

**Ymateb:** Mewn perthynas â *Brexit: Ein Tir* mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi'i gwneud yn glir ei bod yn rhy fuan i gynnal asesiadau effaith ar hyn o bryd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

nes y bydd y cynigion polisi wedi'u datblygu ymhellach. Rydym wedi ymrwymo i gynnal yr holl asesiadau effaith maes o law, gan gynnwys ar gyfer y Gymraeg.

Byddwn yn gwneud yr un fath pan ddaw newidiadau polisi gofynnol eraill yn sgil Brexit.

Fel rwyf eisoes wedi'i nodi, wrth asesu risg effaith Brexit ar gymunedau Cymraeg ac ar y Gymraeg yn fwy cyffredinol, byddwn yn gweithredu ar sail barhaus fel rhan o waith monitro rhaglenni strategaeth *Cymraeg 2050*.

Mae'r Gymraeg yn bodoli yng nghyd-destun y cymunedau sy'n ei siarad. Mae *Cymraeg 2050* yn glir bod parhad y Gymraeg mewn cymunedau lle mae canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg yn anochel gysylltiedig â chynaliadwyedd y cymunedau hynny fel llefydd sy'n economaidd hyfyw lle gall siaradwyr Cymraeg aros neu ddychwelyd iddynt os ydynt yn dymuno. Dim ond fel rhan o waith ehangach i werthuso gallu'r cymunedau hynny i ymdopi yn sgil Brexit, felly, y gellir mynd ati mewn ffordd ystyrlon i asesu effaith bosibl Brexit ar ddemograffeg y Gymraeg ac ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cymunedau hynny. I'r perwyl hwn, rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid drwy Fforwm Bord Gron yr Amgylchedd a Materion Gwledig i edrych ar ba mor agored yw cymunedau ledled Cymru i gael eu niweidio gan senarios amrywiol a allai godi yn sgil Brexit.

**Cwestiwn 3:** *A wnewch roi crynodeb i'r Pwyllgor o'ch trafodaethau â Chomisiynydd y Gymraeg a chmau gweithredu y cytunwyd arnynt?*

Cytunais â chyn-Gomisiynydd y Gymraeg y dylai Brexit fod yn eitem sefydlog yn ein cyfarfodydd chwarterol. Byddaf am barhau â'r trafodaethau hynny gydag Aled Roberts. Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi rhannu tystiolaeth â ni a gyflwynwyd i amrywiol Bwyllgorau'r Cynulliad ac at ddibenion ymgynghoriadau polisi.

## **leithoedd Modern**

**Cwestiwn 4:** *A wnewch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i asesu effaith Brexit ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â dysgu ieithoedd mewn ysgolion a phrifysgolion yng Nghymru?*

**Ymateb:** Dyfodol Byd-eang yw cynllun Llywodraeth Cymru i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru. Caiff y gwaith ei arwain gan grŵp llywio sy'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, ee prifysgolion, y British Council, consortia rhanbarthol a sefydliadau iaith. Mae aelodau'r grŵp wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil i effeithiau Brexit ar ddysgu ieithoedd yng Nghymru a ledled y DU yn gyffredinol. Lluniodd y British Council bapur ar '*leithoedd y Dyfodol*' (2017) ac ysgrifennodd Claire Gorrara, Athro mewn Astudiaethau Ffrengig ym Mhrifysgol Caerdydd bapur '*Speaking from Wales: Building a Modern Languages Community in an era of Brexit*' (2017). Mae'r British Council yn cynnal arolwg blynyddol o dueddiadau ieithyddol sy'n asesu agweddau at ddysgu ieithoedd yng Nghymru a dulliau o'u dysgu. Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau ar effaith Brexit. Caiff y dadansoddiad o'r arolygon a'r astudiaethau hyn ei rannu â holl aelodau'r grŵp ac mae'r penderfyniadau a wneir wrth weithredu cynllun Dyfodol Byd-eang yn seiliedig arno. Ymhlith y penderfyniadau hyn roedd datblygu'r rhaglen mentora myfyrwyr i ganolbwyntio'n fwy ar sgiliau rhyngddiwylliannol a llunio cynigion i ehangu'r arfer o addysgu ieithoedd rhyngwladol i ysgolion cynradd fel rhan o'r cwricwlwm newydd.

*Erasmus+*

Mae Cymru wedi elwa'n sylweddol ar Erasmus ac mae Llywodraeth Cymru am barhau i fod yn aelod llawn o'r rhaglen, neu o ba gynllun bynnag a ddaw yn ei lle. Mae Llywodraeth y DU wedi methu â rhoi sicrwydd y byddwn yn gallu parhau i fanteisio ar Erasmus+. Dyna pam y

byddwn yn parhau i frwydro i sicrhau bod ein prifysgolion, ein colegau a'n hysgolion yn cymryd rhan lawn yn y rhaglen a gwneud yn siwr bod ein cysylltiadau Ewropeaidd yn parhau er gwaethaf Brexit.

Mae'r UE wedi cyhoeddi ei rheoliadau arfaethedig ar gyfer cynllun nesaf Erasmus o Ionawr 2021 i 2027. Mae hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cyfranogiad trydydd gwledydd. Mae Llywodraeth y DU wedi holi barn y Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch y cynigion hyn. Mae'r Cytundeb Ymadael - os cytunir arno - yn darparu y caiff y DU barhau i gymryd rhan yng nghynllun Erasmus tan ddiwedd y cynllun cyfredol ym mis Rhagfyr 2020. Mewn senario "dim cytundeb", byddai'n rhaid gweithredu gwarant Llywodraeth y DU. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw anrhydeddu'r warant hon a'i hehangu. Nid yw'n glir lle mae'r trafodaethau gyda'r Comisiwn ynghylch y mater hwn wedi cyrraedd.

Mae Llywodraeth y DU yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynlluniau o ran y warant. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n fwy byth gyda'n prifysgolion i gryfhau cysylltiadau rhyngwladol er budd ymchwilwyr, sefydliadau, rhanbarthau economaidd a'r genedl gyfan. Rydym wedi rhoi cyllid i'r British Council i ddatblygu, darparu a gwerthuso rhaglen symudedd sy'n canolbwyntio ar gynnig ystod ehangach o gyfleoedd, er enghraifft i Fietnam ar gyfer y bobl ifanc hynny o ardaloedd difreintiedig lle mae nifer llai wedi ymateb. Rydym yn awyddus i ddysgu o arferion gorau ledled y byd ac, yn gwbl hanfodol, i rannu ein meysydd arbenigedd â'r rheini a all ddysgu oddi wrthym. Gall y rhyngweithio hyn fod o fudd i ni ac iddyn nhw.

### *Recriwtio Athrawon*

Rydym yn rhagweld ychydig o effaith ar y cyflenwad athrawon yn sgil Brexit. Ar hyn o bryd, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn gallu cofrestru athrawon o'r Undeb Ewropeaidd sydd am ymarfer yng Nghymru (cyn belled â bod eu cymwysterau a'u SAC yn cyfateb i ofynion Cymru) ac rydym wedi sefydlu mesurau i sicrhau y caiff barhau i wneud hyn yn achos Brexit Dim Cytundeb drwy 'Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019'. Mae'r rhain yn gwneud darpariaeth i'r trefniadau barhau ac, yn achos Brexit Dim Cytundeb, i'r trefniadau alluogi Gweinidogion Cymru i ystyried (yn yr un modd ag yr ydym yn ystyried ceisiadau gan genhedloedd yr UE) cymwysterau athrawon o genhedloedd eraill. Yn achos cytundeb, mae gennym y cyfnod pontio lle cynhelir y status quo fwy neu lai, ac a chymryd na fydd angen gwneud newidiadau yn dilyn y cyfnod pontio, gellir gweithredu'r diwygiadau hyn i'r rheoliadau (gan eu trosglwyddo fel ag y maen nhw).

Paratowyd canllawiau ar gyfer ysgolion ar faterion sy'n ymwneud â Brexit, ac maent yn cynnwys y paragraffau isod:

- Ar hyn o bryd, mae gan athrawon cymwys o'r UE, AEE EFTA a'r Swistir yr hawl i gael eu statws proffesiynol a'u cymwysterau wedi'u hystyried ar gyfer dyfarnu Statws Athro Cymwys yng Nghymru. Bydd ymarferwyr o'r UE, AEE EFTA a'r Swistir y mae eu cymwysterau wedi'u cydnabod cyn y dyddiad ymadael, neu sydd wedi ymgeisio am benderfyniad ar gydnabyddiaeth cyn y dyddiad ymadael, yn cadw'r hawl os bydd y DU yn ymadael heb gytundeb. Ni fydd newid i bobl sydd eisoes wedi cael eu statws proffesiynol a'u cymwysterau o'r UE, AEE EFTA a'r Swistir wedi'u cydnabod a'u dilysu ac wedi cael Statws Athro Cymwys yng Nghymru.
- Os na fydd cytundeb, ni fydd y system gyfredol o gydnabyddiaeth ddwyochrog at gyfer cymwysterau proffesiynol rhwng y DU a'r UE, AEE EFTA a'r Swistir yn gymwys ar ôl y dyddiad gadael. Nid yw hyn yn effeithio ar bobl y mae eu cymwysterau eisoes wedi'u cydnabod gan y DU neu bobl sydd eisoes wedi gwneud cais am benderfyniad ar gydnabyddiaeth cyn y dyddiad ymadael.

- Ar ôl inni adael yr UE, fe sicrhawn y bydd ffordd o hyd i ymarferwyr sydd â chymwysterau o'r UE, yr AEE, EFTA a'r Swistir, gan gynnwys athrawon, geisio cydnabyddiaeth o'u cymwysterau proffesiynol drwy system newydd. Caiff gwylbodaeth bellach ei chyhoeddi'n fuan ar GOV.UK.
- Nid yw'r trefniadau effaith yn lleihau effaith hawliau a breintiau a roddir, yn rhinwedd yr Ardal Deithio Gyffredin, i ddinasyddion Iwerddon a'r DU pan fyddant yng ngwladwriaethau ei gilydd.

**Cwestiwn 5:** *A wnewch gadarnhau bod polisi Cymru fel cenedl dairieithog yn parhau i gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru?*

**Ymateb:** Yn 2015 cyhoeddwyd strategaeth 'Dwyieithog a mwy' fel rhan o gynllun 5 mlynedd Dyfodol Byd-eang i helpu i wrthdroi'r dirywiad yn y nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghymru.

Fodd bynnag, codwyd pryderon bod rhai ysgolion yn dehongli 'Dwyieithog a mwy' ar sail yr enw Saesneg, 'Bilingual plus 1', gan ragdybio'n anghywir mai un iaith fodern yn unig y dylid ei chynnig mewn ysgolion yng Nghymru. Rydym wedi ei gwneud yn glir i bob rhanddeiliad nad yw'n fwriad nac yn nod gan strategaeth 'Dwyieithog a mwy' i gyfyngu'r dewis o ieithoedd modern a gynigir i un iaith. Byddai cyfyngu o'r fath yn mynd yn groes i ethos *Dyfodol Byd-eang*, sy'n ceisio cefnogi ac ehangu'r arfer o ddysgu ieithoedd ac amrywiaeth ieithoedd o fewn y cwricwlwm, yn hytrach na chwotgi ar hynny.

Mae ieithoedd yn elfen hanfodol o bedwar diben *Cwricwlwm i Gymru*. Bydd y cwricwlwm newydd yn tynnu ynghyd Gymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Caiff y term Ieithoedd Rhyngwladol ei ddefnyddio i gwmpasu ieithoedd modern, ieithoedd cymunedol, ieithoedd clasurol ac iaith Arwyddion Prydain. Bydd arweinwyr yn datblygu o ddangos ymwybyddiaeth o'r ieithoedd a'r diwylliannau o'u cwmpas yn yr ysgol ac yn y gymuned i ddangos dealltwriaeth o gymdeithasau amlddiwylliannol ac amlieithrwydd yma yng Nghymru ac ar draws y byd. Dangosir cynnydd mewn iaith Rhyngwladol o Gam Cynnydd 3 (erbyn diwedd yr ysgol gynradd). Mae'r cwricwlwm drafft yn nodi y dylai pob dysgwr gael cyfleoedd i ddysgu o leiaf un iaith ryngwladol ochr yn ochr â Chymraeg a Saesneg, a bydd hyn yn disodli strategaeth 'dwyieithog a mwy'. Mae sgiliau gwranddo a darllen, siarad ac ysgrifennu, a sgiliau sy'n ymwneud â llenyddiaeth a ddatblygir mewn un iaith yn cefnogi datblygiad dysgwyr mewn iaith arall, dim ots pa iaith a ddysgwyd gyntaf.

Yr eiddoch,



**Eluned Morgan AC**

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Minister for International Relations and the Welsh Language